Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Strategaeth Capasiti Carchardai 10 mlynedd

Rhagfyr 2024

CP 1219

# Strategaeth Capasiti Carchardai 10 mlynedd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Rhagfyr 2024

CP 1219

OGL

© Hawlfraint y Goron **2024**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/official-documents**

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn **general.queries@justice.gov.uk**

ISBN 978-1-5286-5317-6

E03252962 12/24

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Yr her capasiti | 4 |
| Cyflawni ein rhaglenni adeiladu carchardai | 4 |
| Ein Hamserlen Gyflenwi | 9 |
| Caniatâd cynllunio a diwygio seilwaith | 10 |
| Cynnal a chadw | 13 |
| Heriau o ran cyflawni | 13 |
| Adeiladu'r sylfeini digidol | 14 |
| Caffael tir i ehangu ymhellach | 15 |
| Casgliadau | 15 |

# Rhagair



Ar y diwrnod y daeth y Llywodraeth hon i rym, cefais fy rhybuddio y byddai ein carchardai mewn perygl o fod yn orlawn o fewn wythnosau. Pe bai hynny wedi digwydd, byddai goblygiadau hynny wedi bod yn drychinebus. Byddai'r llysoedd wedi cael eu gorfodi i ganslo treialon. Byddai'n rhaid i'r heddlu fod wedi atal unrhyw arestiadau. Gyda throseddau'n mynd heb eu cosbi, byddem wedi gweld cyfraith a threfn yn methu'n gyfan gwbl.

Gorfodwyd y llywodraeth hon i gymryd y camau angenrheidiol, ond anodd hyn. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd y byddai rhai troseddwyr sy'n treulio dedfryd benodol safonol yn gweld eu dyddiad rhyddhau o garchar yn symud o 50 y cant i 40 y cant, gan dreulio'r gweddill ar drwydded yn y gymuned. Ni ddaeth y mesur i rym tan fis Medi, drwy sicrhau bod gan staff carchardai a staff y gwasanaeth prawf yr amser oedd ei angen arnynt i baratoi ar gyfer rhyddhau pob carcharor. Yn y cyfamser, serch hynny, bu cyfnodau o anrhefn ar draws y wlad. Fe wnaeth y system gyfiawnder troseddol ymateb i'r her, ond daethom yn beryglus o agos at fod ar ein gliniau. Dim ond diolch i waith caled ac ewyllys da y rhai sy'n gweithio yn ein carchardai a'n gwasanaethau prawf y gwnaethom oroesi. A hyd yn oed wedyn, cael a chael oedd hi. Ar adegau dim ond un diwrnod gwael i ffwrdd rhag trychineb oedden ni.

Ni fydd y Llywodraeth hon byth yn gadael ein carchardai mewn cyflwr mor ansicr eto. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni ateb dau gwestiwn. Yn gyntaf, sut wnaeth y Llywodraeth flaenorol ganiatáu i'n system carchardai ddod mor agos at fod ar ei gliniau'n gyfan gwbl? Ac yn ail, sut bydd y Llywodraeth hon yn sicrhau na fydd hyn byth yn digwydd eto?

Yr ateb i'r cwestiwn cyntaf yw methiant y Llywodraeth flaenorol i adeiladu'r carchardai sydd eu hangen ar y wlad. Yn 2021, addawodd fy rhagflaenwyr 20,000 o leoedd newydd mewn carchardai erbyn canol y 2020au. Erbyn iddynt adael, dim ond 6,000 o'r llefydd roeddent wedi'u hadeiladu. Ar draws 14 mlynedd yr oedd y Llywodraeth flaenorol mewn grym, gan ystyried y celloedd y gwnaethant eu cau a'r rhai y gwnaethant eu hagor, ychwanegodd y Llywodraeth flaenorol lai na 500 o leoedd i'r stoc carchardai yn gyffredinol.

Roedd eu methiant diweddar, fel y mae'r ddogfen hon yn dangos, o ganlyniad i gyfres o achosion o oedi. Bu oedi gyda ychwanegu tua 6,400 o leoedd mewn carchardai oherwydd anawsterau cynllunio, a roedd y Llywodraeth ganolog yn anfodlon bwrw ymlaen ag adeiladu carchardai oherwydd y gost wleidyddol bosib o wneud hynny. O ganlyniad, wrth i amser fynd heibio, mae cost carchardai newydd wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2021, amcangyfrifir bod cost y rhaglen i adeiladu 20,000 o leoedd mewn carchardai yn £5.2 biliwn. Fel y mae'r ddogfen hon yn datgelu, bydd y gwir gost rhwng £9.4 biliwn a £10.1 biliwn. Gallai cost yr oedi hwn, felly, gyrraedd bron i £5 biliwn. Bil y Llywodraeth flaenorol yw hwn, ond un y bydd yn rhaid i drethdalwyr ei dalu.

Hyd yn oed pe byddai'r Llywodraeth flaenorol wedi adeiladu ar y raddfa yr addawodd, ni fyddai wedi bod yn ddigon ar gyfer y cynnydd yn y galw am leoedd mewn carchardai. O ystyried y camau brys y mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi'u cymryd, rydym yn dal i amcangyfrif y bydd poblogaeth carchardai yn cynyddu 3,000 ar gyfartaledd yn flynyddol yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae hynny'n cyfateb i adeiladu dau garchar enfawr bob blwyddyn, sy'n llawer mwy nag sy'n ymarferol. Felly, yn y blynyddoedd i ddod, bydd twf y boblogaeth yn fwy na'n gallu i adeiladu lleoedd newydd mewn carchardai. Mae goblygiadau hynny'n amlwg, ac eto, nid oedd gan y Llywodraeth flaenorol y dewrder i'w wynebu. Er bod adeiladu carchardai yn angenrheidiol, nid yw'n ddigon i fynd i'r afael â'r argyfwng capasiti sy'n ein hwynebu.

Daw hyn â mi at sut bydd y Llywodraeth hon yn ateb fy ail gwestiwn: sut rydym yn sicrhau na fydd argyfwng fel hyn byth yn digwydd eto?

Mae'r ddogfen hon, ein Strategaeth Capasiti Carchardai 10 mlynedd, yn cynnig hanner yr ateb i'r cwestiwn hwnnw. Mae'n nodi sut bydd y Llywodraeth hon yn adeiladu'r 14,000 o leoedd mewn carchardai yr addawodd y Llywodraeth flaenorol, gan anelu at wneud hynny erbyn 2031. Mae'n gynllun manwl, sy'n nodi ble bydd y lleoedd hyn yn cael eu hadeiladu ac erbyn pryd. Mae'n gynllun realistig, sy'n cynnwys 1,000 o leoedd wrth gefn rhag ofn y bydd oedi pellach, ac yn cydnabod effaith methdaliad diweddar cyflenwr mawr, ISG. Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau pwerau cynllunio newydd, a fydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd pe bai angen tir newydd ar gyfer safleoedd i garchardai yn y dyfodol. Fel y cyfryw, mae'n gynllun realistig ond uchelgeisiol ar gyfer adeiladu carchardai newydd – sy'n bell o rethreg wag a realiti siomedig ymdrechion blaenorol fy rhagflaenwyr.

Serch hynny, dim ond un rhan o gynllun y Llywodraeth yw adeiladu carchardai er mwyn peidio â bod yn brin o le mewn carchardai byth eto. Gyda phoblogaeth carchardai yn cynyddu'n gyflymach nag y gallwn adeiladu carchardai newydd, mae'r Llywodraeth hon hefyd wedi lansio Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, o dan arweiniad y cyn Arglwydd Ganghellor David Gauke. Yn ystod gwanwyn 2025, bydd yr adolygiad yn nodi argymhellion sy'n bodloni tri amod. Yn gyntaf, bod wastad lle yn ein carchardai ar gyfer troseddwyr peryglus. Yn ail, bod ein carchardai yn annog troseddwyr i droi eu cefnau ar fywyd o droseddu, gan sicrhau bod ein carchardai yn creu dinasyddion gwell ac nid troseddwyr gwell, ar adeg pan fo bron i 80% o droseddwyr yn ail-droseddwyr. Yn drydydd, rhaid iddo ehangu'r ystod a'r defnydd o gosbau y tu hwnt i'r carchar, gan ddefnyddio mwy ar y dechnoleg bresennol a'r dechnoleg sy'n dod i'r amlwg i gyfyngu ar ryddid y tu allan i'r carchar, yn union fel rydym yn ei wneud y tu mewn i'r carchar.

Etifeddodd y Llywodraeth hon system garchardai ar y dibyn. Daeth ein camau cychwynnol, a gymerwyd mewn modd cyndyn ond â phenderfyniad, â ni'n ôl o'r dibyn. Ond methiant pennaf y Llywodraeth flaenorol oedd y ffaith iddi beidio ag atal yr argyfwng hwn. Fe wnaeth ganiatáu argyfwng a oedd wedi bod mor ragweladwy, ers cyhyd. Bydd y strategaeth gapasiti hon, ochr yn ochr â'r adolygiad dedfrydu annibynnol, yn sicrhau na fydd unrhyw lywodraeth yn y dyfodol yn cael ei rhoi yn y sefyllfa warthus hon byth eto.

**Y Gwir Anrhydeddus Shabana Mahmood AS**
Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

## Yr her capasiti

1. Ar 24 Rhagfyr 2024, poblogaeth yr ystad carchardai i oedolion oedd 85,688, sef 82,193 yn yr ystad oedolion gwrywaidd a 3,495 yn yr ystad fenywaidd. Mae poblogaeth carchardai wedi bod o dan gryn bwysau ers peth amser, gyda'r ystad gwrywaidd yn rhedeg ar gapasiti o dros 99% am lawer o'r 18 mis ers mis Chwefror 2023.
2. Ymrwymodd y Llywodraeth flaenorol i ddarparu 20,000 o leoedd ychwanegol mewn carchardai erbyn canol y 2020au, ond methodd â gwneud hynny. Cafwyd oedi sylweddol i brosiectau – mewn rhai achosion, yn flynyddoedd ar ei hôl hi – ac mae methiant i fynd i'r afael â'r galw cynyddol wedi gadael y system filoedd o leoedd yn brin o'r capasiti sydd ei angen am weddill y degawd. Mae'n amlwg bellach nad oedd hyd yn oed yr ymrwymiad gwreiddiol yng nghanol y 2020au yn ddigon i gadw i fyny â'r galw disgwyliedig am leoedd mewn carchardai, yn ôl rhagolygon y Llywodraeth flaenorol ei hun. Mae'r bylchau penodol wedi'u nodi'n fanwl yn y Datganiad Blynyddol cyntaf ar gapasiti carchardai a gyhoeddwyd ar y cyd â'r strategaeth hon.
3. Er gwaethaf camau cyflym y Llywodraeth hon i sicrhau na wnaeth y system cyfiawnder troseddol fethu'n gyfan gwbl, mae dal disgwyl i boblogaeth carchardai fod yn fwy na'r galw. Er gwaethaf yr holl fesurau sydd eisoes wedi'u cymryd gan y Llywodraeth hon, disgwylir o hyd y bydd poblogaeth carchardai yn cynyddu 3,000 yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a pharhau i gynyddu ar ôl hynny. Rhagwelir y bydd y cyfanswm poblogaeth carchardai yn cynyddu'n raddol i gyrraedd rhwng 97,300 a 112,300 o garcharorion erbyn Tachwedd 2032. Mae rhagolygon tebyg wedi'u cyhoeddi ers 2021 ond nid yw maint cyffredinol y cyflenwad a gynlluniwyd na'r gyfradd gyflenwi wedi bod yn ddigon i fodloni'r galw a ragwelir.
4. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein cynlluniau i gynyddu'r capasiti gofynnol a chywiro camgymeriadau'r gorffennol. Serch hynny, gydag adeiladu carchardai newydd yn cymryd o leiaf saith mlynedd i'w gyflawni, ni fyddwn yn gallu adeiladu ein ffordd allan o'r argyfwng hwn a etifeddwyd. Ochr yn ochr â hynny, mae'r Llywodraeth hon wedi cyhoeddi Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2025. Yn wahanol i gynllunio gwael a thameidiog y gorffennol, mae ein ffordd o weithio yn cynnwys lleoedd newydd mewn carchardai ac Adolygiad Dedfrydu sy'n bwriadu sicrhau na fyddwn byth yn brin o le eto ac i gyflawni system sefydlog a chynaliadwy.


## Cyflawni ein rhaglenni adeiladu carchardai


5. Ers dechrau'r gwaith ym mis Gorffennaf 2024, mae'r Llywodraeth newydd eisoes wedi darparu tua 500 o leoedd yn yr ystad fel rhan o'r 14,000 o leoedd sy'n weddill. Yn ystod 2024-25 a 2025-26, byddwn yn buddsoddi tua £2.3 biliwn yn ein rhaglenni adeiladu carchardai.
6. Daw risgiau cynhenid i brosiectau seilwaith mawr, gan gynnwys cyflwr y tir, caniatâd cynllunio a sefydlogrwydd y farchnad adeiladu. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu na fydd modd cyflawni prosiectau neu oedi. I liniaru'r heriau hyn, a'r potensial y byddai hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiad i ddarparu tua 14,000 o leoedd, gan gynnwys tua 500 sydd eisoes wedi'u cwblhau yn y Senedd hon, mae ein cynlluniau cyflawni yn cynnwys lleoedd wrth gefn sy'n gweithredu fel cydnerthedd ar gyfer y rhaglen os na fydd modd cyflawni prosiect neu os yw'n cynnig gwerth gwael am arian ac os nad yw'n cael ei ddatblygu (Ffigur 1).
7. Ein hasesiad ar hyn o bryd yw y bydd y rhaglenni'n costio rhwng £9.4 biliwn a £10.1 biliwn o'i gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol o £5.2 biliwn adeg Adolygiad o Wariant 2021. Felly byddwn yn adolygu gwerth am arian adeiladu a rhedeg lleoedd newydd mewn carchardai yn ystod yr Adolygiad o Wariant sydd ar y gweill.

8. Byddwn yn ceisio cyflawni'r lleoedd hyn mewn carchardai drwy:

- **Carchardai newydd –** Byddwn yn cyflwyno tua 6,500 o leoedd newydd drwy garchardai newydd sydd wedi'u cynllunio i helpu i gael effaith bositif ar adsefydlu carcharorion. Caiff yr hol garchardai hyn eu hadeiladu yn ôl model bloc tai 'T60', cynllun siâp 'croes' sydd â lle i tua 60 o garcharorion fesul llawr. Mae hyn wedi'i gynllunio i wella diogelwch a gwyleidd-dra. Bydd carchardai newydd yn cynnwys:
  - carchar newydd yn Swydd Efrog, CEF Millsike, gyda thua 1,500 o leoedd yn 2025;
  - carchar newydd yn Swydd Gaerlŷr, gyda thua 1,700 o leoedd sydd wedi cael caniatâd cynllunio llawn;
  - carchar newydd yn Swydd Buckingham, gyda thua 1,500 o leoedd, sydd â chaniatâd cynllunio amlinellol; a
  - charchar newydd yn Swydd Gaerhirfryn, gyda thua 1,700 o leoedd, sydd â chaniatâd cynllunio amlinellol.
- **Blociau tai newydd –** Rydym hefyd yn ychwanegu blociau tai ychwanegol i garchardai sy'n bodoli'n barod. Mae ein blociau tai yn defnyddio amrywiaeth o gynlluniau i'n galluogi i wneud y defnydd mwyaf posib o'r tir sydd ar gael, gan gynnwys y model T60 a chynllun o flociau tai diogel, llai o faint. I gyd, byddwn yn ychwanegu tua 6,400 o leoedd i'r ystad drwy flociau tai gan gynnwys, er enghraifft, tua 500 o leoedd newydd yn CEF Channings Wood.
- **Celloedd y gellir eu hadeiladu'n gyflym (RDC) –** Mae'r rhain yn unedau modiwlaidd, hunangynhwysol gydag oes o 15 mlynedd wedi'u gosod ar dir carchardai ystadau Categori C, Categori D a charchardai menywod sy'n bodoli'n barod ac wedi'u cynllunio ar gyfer carcharorion o risg isel. Rydym wedi cyflenwi tua 770 RCS ar draws 14 o safleoedd ac mae tua 1,000 yn fwy ar y gweill. Mae'r unedau'n rhoi cyfle i gefnogi carcharorion ymhellach yn eu cyfnod pontio o amodau caeedig i amodau agored (e.e. byw'n annibynnol i'r carcharorion hynny sy'n agosáu at ddiwedd eu dedfryd a/neu sy'n cael eu hasesu fel risg isel).
- **Adnewyddu –** Rydym yn parhau i adnewyddu unedau preswyl, cyfleusterau ac ystafelloedd ategol (e.e. ceginau, mannau addysg a gweithdai). Bydd adnewyddu'r ystad Fictoraidd yn trawsnewid tua 1,000 o gelloedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gan gynnwys gwaith adnewyddu adain wrth adain yn CEF Lerpwl, tua 350 o leoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, yn ogystal ag uwchraddio pob un o'r 800 o gelloedd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd.


Ffigur 1: Dadansoddiad o'r rhaglenni adeiladu carchardai fesul rhanbarth (map) a math o adeilad (siart gylch). Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 50 lle agosaf. Nid yw'n cynnwys tua 6,000 o leoedd a gyflwynwyd yn barod.






9. Ar draws y rhanbarthau, rydym wedi cyflwyno neu wrthi'n cyflwyno sawl prosiect sy'n ehangu capasiti ac yn gwella safonau yn yr ystad. Mae trosolwg o nifer y gwahanol fathau o adeiladau a'r amserlen cyflawni wedi'i nodi isod yn Ffigur 2:

Ffigur 2: Dadansoddiad o amserlen gyflawni'r rhaglenni adeiladu carchardai. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys tua 6,000 o leoedd a gyflwynwyd yn barod ond mae'n cynnwys prosiectau wrth gefn i gyflwyno'r 14,000 o leoedd.




10. Y gost cyfalaf ymlaen llaw fesul lle mewn carchar yw £500,000 fesul lle caeedig a £400,000 fesul lle agored neu dros dro (prisiau 24/25). Mae hyn yn gyfartaledd ac yn amrywio ar draws gwahanol brosiectau. Mae costau yn debygol o gynyddu yn y dyfodol yn unol â chwyddiant, ac o ganlyniad i weithgarwch economaidd a byd-eang ehangach sy'n effeithio ar y farchnad adeiladu a'r gadwyn gyflenwi. Byddwn yn adolygu gwerth am arian lleoedd newydd.

11. Mae'r Llywodraeth hon hefyd wedi ymrwymo i leihau'r nifer o fenywod mewn carchardai. Bydd Bwrdd Cyfiawnder Menywod newydd (WJB) yn dod ag arbenigwyr allanol at ei gilydd i rannu eu profiadau ac i roi gweledigaeth a chyfeiriad ar sut i ddiwygio cyfiawnder menywod i gyflawni'r nodau hyn. Byddwn yn amlinellu ein cynlluniau mewn strategaeth newydd ar gyfer menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn y gwanwyn.

## Ein Hamserlen Gyflenwi

**Ffigur 3: Ein llinell gyflenwi o fis Tachwedd 2024 tan ddiwedd 2032.**



12. Mae ein cynllun cyflenwi (Ffigur 3) yn cynrychioli'r cynllun adrannol ar gyfer cynyddu cyflenwad carchardai ac yn cynnwys y cyfnod tan ddiwedd 2032. Mae hyn yn amodol ar adolygiad o werth am arian adeiladu a rhedeg lleoedd newydd mewn carchardai yn ystod yr Adolygiad o Wariant sydd ar y gweill. Anelwn at adeiladu 14,000 o leoedd erbyn 2031. Ar y pwynt hwn, rydym yn disgwyl y bydd diwygiadau wedi'u gwneud yn dilyn yr Adolygiad Dedfrydu annibynnol. Serch hynny, fel rhan o'n prosesau rheolaidd i reoli'r ystad, byddwn yn parhau i adolygu a oes angen cyflenwad ychwanegol.

13. Mae prosiectau'r llinell gyflenwi yn rhagweld y lleoedd sydd ar gael mewn carchardai gan gynnwys amcangyfrif o golledion capasiti oherwydd gwaith cynnal a chadw a dadfeilio. Mae'r llinell gyflenwi yn cynrychioli capasiti defnyddiadwy ac nid yw'n cynrychioli poblogaeth ddisgwyliedig carchardai. Ceir mwy o fanylion yn y Datganiad Blynyddol ar gapasiti carchardai, a gyhoeddir ar y cyd â'r strategaeth hon.

14. Amcangyfrif yw'r llinell gyflenwi hon a gall newid, gan ei bod yn anochel y bydd cynlluniau cyfredol yn newid i adlewyrchu realiti gweithredol, yn ogystal â chynlluniau a phrosiectau newydd yn aeddfedu, yn enwedig tua diwedd cyfnod yr amcangyfrif. Mae gennym gynlluniau ar waith i liniaru achosion yr oedi sylweddol a welodd y Llywodraeth flaenorol yn colli ei thargedau ei hun i adeiladu erbyn canol y 2020au, fel yr eglurir isod. Bydd yr amcangyfrif yn cael ei effeithio os bydd rhai lleoedd yn cau.

## Caniatâd cynllunio a diwygio seilwaith

15. Mae adeiladu carchardai yn brosiectau cyfalaf cymhleth. Mae apelio yn erbyn caniatâd cynllunio a wrthodwyd wedi achosi oedi ar rai prosiectau. Rydym hefyd wedi gweld costau'n cynyddu o ganlyniad i gyfnod o chwyddiant eithriadol, sydd wedi cynyddu pris pren a dur. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn ansolfedd o fewn y sector adeiladu, ac mae bregusrwydd i amodau economaidd ehangach yn y farchnad adeiladu hefyd wedi effeithio ar amserlenni cyflawni. Mae bob tri mis o oedi gyda charchar newydd yn ychwanegu tua £8 miliwn mewn chwyddiant costau adeiladu.

16. Dyma pam mae'n bwysig cael caniatâd cynllunio, yn enwedig ar gyfer carchardai newydd, yn brydlon. Yn y gorffennol, mae hyn wedi bod yn broses gostus sy'n cymryd llawer o amser. O dan y Llywodraeth flaenorol, fe wnaeth heriau gyda chaniatâd cynllunio arwain at oedi wrth adeiladu carchardai a chynyddodd gost y rhaglen yn gyffredinol. Roedd y carchardai newydd yn Swydd Gaerhirfryn, Swydd Buckingham a Swydd Gaerlŷr wedi bod yn y system gynllunio am 40 mis, 30 mis a 29 mis yn y drefn honno. Heb yr oedi hwn, byddai tua 5,000 o leoedd ychwanegol wedi bod ar gael mewn carchardai newydd erbyn dechrau 2027.

**Ffigur 4: Tabl i ddangos yr oedi wrth gyflwyno carchardai newydd**

| Oedi Cynllunio | Achos ac Effaith | Safleoedd a Effeithiwyd |
|---|---|---|
| Mae cael cymeradwyaeth gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) wedi arwain at oedi o rhwng tri mis – dwy flynedd ar gyfer rhai prosiectau. | • Problemau gydag ACLlau ddim yn gwneud penderfyniadau o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt neu'n gofyn am eglurhad sylweddol neu adolygiad ychwanegol.<br>• Mae aros i ACLlau gymeradwyo ceisiadau cyn-ymgeisio wedi achosi oedi, tra ym mhen arall y broses, mae datrys amodau caniatâd cynllunio a osodwyd gan ACLlau hefyd wedi ychwanegu amser at geisiadau.<br>• Bu oedi o tua 7 mis i brosiect ehangu Cat D yn CEF Standford Hill oherwydd y broses gynllunio. | Ford (Cat D)<br>Kirklevington Grange (RDC)<br>Holme House (RDC)<br>Prescoed (RDC)<br>Springhill Cam 1 (Cat D)<br>Standford Hill (Cat D)<br>Lancaster Farms (Bloc Tai Diogel Bach) |
| Mae apelio yn erbyn caniatâd cynllunio a wrthodwyd ar gyfer tri charchar newydd wedi ychwanegu hyd at dair blynedd i benderfyniadau cynllunio amlinellol. | Oedi a achoswyd yn sgil gohirio dyddiadau penderfynu ar ôl apêl. | Tri charchar newydd:<br>Swydd Buckingham (wrth ymyl CEF Grendon)<br>Swydd Gaerhirfryn (wrth ymyl CEF Garth)<br>Swydd Gaerlŷr (wrth ymyl CEF Gartree |
| Mewn ardaloedd lle bo cyngor Niwtraliaeth Maethynnau ar waith oherwydd bod llygredd maethynnau yn effeithio'n andwyol ar Safleoedd Cynefinoedd, mae angen i ddatblygiadau newydd (sy'n cynnwys llety dros nos) liniaru ar gyfer ei effaith ar faethynnau. Mae angen i ddatblygiadau newydd o'r fath naill ai sicrhau credydau maethynnau neu fesurau lliniaru maethynnau eraill er mwyn i ganiatâd cynllunio gael ei roi. Mae'r mater hwn yn effeithio'n bennaf ar ddatblygiadau tai, ond mae datblygiadau carchardai hefyd wedi'u heffeithio. Mae datrys y problemau hyn wedi arwain at oedi o chwe i naw mis. | • Nid oes unrhyw gynlluniau credyd byw mewn rhai dalgylchoedd ac mae cytuno ar fesurau lliniaru wedi cymryd llawer o amser ac yn gostus.<br>• Mae angen i fesurau lliniaru fod yn ddigon sicr a chadarn cyn y gellir cael caniatâd cynllunio.<br>• Cafodd prosiectau yn CEF Kirklevington Grange a CEF Holme House eu hoedi tua 9 mis oherwydd niwtraliaeth maethynnau. | Kirklevington Grange (RDC)<br>Holme House (RDC)<br>Bure (RDC) |

17. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gryfhau'r dull gweithredu mewn polisi cynllunio cenedlaethol i'w gwneud yn glir y dylid rhoi cryn bwys ar bwysigrwydd seilwaith gwasanaethau cyhoeddus newydd, sydd wedi'u hehangu neu eu huwchraddio (fel carchardai) wrth ystyried cynigion datblygu. Byddai hyn yn annog awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) i fabwysiadu dull mwy cyson a phositif o ran ein ceisiadau, ac mae gefnogi'r broses o ddarparu ystod o seilwaith gan gynnwys Adeiladau Cymeradwy, sydd fel math o lety cymunedol, wedi bod yn anodd cytuno arno drwy ACLlau yn y gorffennol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad a'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) diwygiedig eleni.

18. Ym maniffesto y llywodraeth hon, fe wnaethom gydnabod bod carchardai o bwys cenedlaethol, felly bydd angen gwneud penderfyniadau cynllunio mewn ffordd amserol a chymesur. I'r perwyl hwnnw, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ceisio sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer carchardai newydd drwy Lwybr newydd Datblygu'r Goron. Mae hwn yn llwybr cynllunio symlach, newydd sy'n galluogi ceisiadau am ddatblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol i gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Arolygiaeth Gynllunio, gan ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) alw'r achos i mewn i wneud penderfyniad. Disgwylir i'r llwybr hwn ddod i rym yn ystod gwanwyn 2025. Mae cynllunio wedi'i ddatganoli yng Nghymru. Felly, byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i weld a oes unrhyw gyfleoedd i symleiddio'r broses gynllunio yn ehangach ar gyfer seilwaith cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

19. Mewn rhai ardaloedd o'r wlad, mae cynlluniau i ddatblygu carchardai wedi gorfod dangos dim cynnydd net mewn maethynnau yn y dŵr o ganlyniad i'n datblygiad (Niwtraliaeth Maethynnau) er mwyn cael caniatâd cynllunio. Er ei fod yn bwysig nad yw datblygu carchardai newydd yn gwneud cyflwr ein safleoedd pwysig o ran natur yn waeth, mae hyn wedi cymryd llawer o amser ac yn gostus i'w ddatrys, gan ychwanegu oedi sylweddol mewn nifer o safleoedd sydd wedi arwain at gostau cyflenwi uwch. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithredu atebion i annog datblygu cynaliadwy sy'n cael ei effeithio gan niwtraliaeth maethynnau, heb wanhau amddiffyniadau amgylcheddol. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ynghyd â Natural England, i wella'r agwedd at niwtraliaeth maethynnau a datrys y diffyg opsiynau lliniaru addas.

20. Mae'r Bil Cynllunio a Seilwaith yn rhoi cyfle i gyflymu datblygiadau, fel carchardai, drwy ddefnyddio'r datblygiad i ariannu adferiad natur lle mae'r ddau ar stop ar hyn o bryd. Dim ond pan y mesurau yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol positif y bydd y Llywodraeth yn cynnig deddfwriaeth. Yn ogystal ag ystyried deddfwriaeth, mae'r llywodraeth yn parhau i hybu'r cyflenwad o fesurau lliniaru lleol. Mae Cynllun Lliniaru Maethynnau Natural England yn parhau i ehangu ac mae eisoes wedi darparu credydau maethynnau i alluogi lleoedd mewn carchardai yn nalgylch Tees. Yn y gyllideb, cyhoeddodd y Llywodraeth £45 miliwn o gyllid i gynigwyr llwyddiannus fel rhan o Rownd 2 o'r Gronfa Lliniaru Maethynnau Lleol, ochr yn ochr â chyllid ychwanegol o £2 miliwn i'r 20 dalgylch niwtraliaeth maethynnau mwyaf. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i barhau i gyflwyno cynlluniau lliniaru maethynnau arloesol fel y gall datblygu cynaliadwy, gan gynnwys carchardai, gael eu cyflwyno yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.

21. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) ar ei hymgysylltiad ag Ofgem a'r cwmnïau rhwydwaith trydan i ddiwygio'r broses cysylltiadau. Mae uwchraddio pŵer ar gyfer carchardai yn cymryd dwy i bum mlynedd ar hyn o bryd oherwydd amseroedd aros hir, gan ychwanegu cost sylweddol i'r prosiectau ehangu, gan ddibynnu ar eneraduron dros dro fel mesur lliniaru wrth i ni aros i gael ein cysylltu â chyfleustodau. Yn ogystal, lle bo angen fforddfreintiau (hawl tramwy a roddir gan dirfeddiannwr) i gael mynediad at dir preifat, rhaid i'r rhain gael eu negodi, ac mewn rhai achosion, maent yn cyfrannu at yr oedi. Mae'r DESNZ wedi ei gwneud yn flaenoriaeth i adolygu hawliau tir cyfredol a'r prosesau cydsynio ac yn gwneud hyn drwy ei Weithgor Mynediad Tir a Fforddfreintiau. Cyhoeddwyd ymateb i'r Cais am Dystiolaeth ar Hawliau a Chydsyniadau Tir ar 2 Rhagfyr.

## Cynnal a chadw

22. Mae'r ystad carchardai yn hen ac yn dirwyio. Cafodd tri ym mhob pump (62%) o garchardai eu hagor dros 50 mlynedd yn ôl, a dros chwarter yn oes Fictoria neu ynghynt. Mae safon isel y llety, yn enwedig yn y carchardai hŷn hyn, yn ein gwneud yn agored i golledion sydyn o ran capasiti. Mae pwysau poblogaeth carchardai sy'n codi wedi golygu bod llety a fwriadwyd i gymryd lle celloedd adfeiliedig wedi gorfod cael eu defnyddio i ateb y galw cynyddol, sy'n golygu bod angen parhau i ddefnyddio llety gwael. Mae tanfuddsoddi hanesyddol o ran cynnal a chadw wedi gwaethygu'r problemau hyn gan wneud yr ystad yn agored i golledion sydyn o ran capasiti, er enghraifft, cau CEF Dartmoor yn ddiweddar oherwydd presenoldeb radon.

23. Mae'r Rhaglen Arolwg o Gyflwr Ystadau Carchardai (PECSP) yn ein galluogi i ddeall ansawdd ein hystad bresennol yn well. Mae'r arolwg hwn wedi rhoi arf pwerus i ni ragweld y gwariant sydd ei angen ar gynnal a chadw dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym bellach yn gwybod mwy am gyflwr ein hystad nag erioed, ac rydym yn defnyddio'r data hwnnw i gynllunio a blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol.

24. Rydym yn buddsoddi £220 miliwn ar gynnal a chadw'r gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf yn ystod 2024-25 a hyd at £300 miliwn yn ystod 2025-26, i gadw carchardai yn ddiogel. Byddwn yn ymrwymo i wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol i:

    - leihau colledion o ran lleoedd mewn carchardai. Mae'r ystad yn agored i ddadfeilio, lle caiff celloedd unigol – neu adeiladau cyfan – eu tynnu rhag cael eu defnyddio, naill ai dros dro neu'n barhaol, oherwydd nad yw amodau neu strwythurau cynnal yn ymarferol mwyach; a
    - chaniatáu i garchardai gadw troseddwyr yn ddiogel, mewn amodau boddhaol a chynnig trefniadau adsefydlu. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod celloedd yn ddiogel rhag tân. Mae amodau gwael mewn carchardai wedi bod yn gysylltiedig â thrais cynyddol, llesiant gwaeth a mwy o aildroseddu.

## Heriau o ran cyflawni

25. Gall prosiectau adeiladu a seilwaith mawr fod yn ansicr. Mae'r farchnad adeiladu wedi'i heffeithio gan ffactorau allanol fel chwyddiant ac effeithiau gwrthdaro byd-eang parhaus, llai o gapasiti yn y farchnad adeiladu o ganlyniad i fusnesau'n methu, amgylchedd masnachu heriol cadwyni cyflenwi ac yn fwyaf diweddar, ar ôl i ISG ac ESS fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a oedd yn gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw nifer o'n carchardai, yn ogystal â phrosiectau i wella diogelwch tân.

26. I gyd, mae 3,700 o leoedd ar draws 16 o brosiectau yn y cyfnod cyn-adeiladu neu gyfnod adeiladu o fewn y rhaglen adeiladu carchardai wedi cael eu heffeithio gan y chwalfa. Yn ogystal, roedd ISG o dan gontract i gyflwyno 54 o brosiectau cyfalaf cynnal a chadw, gan gynnwys gwelliannau i ddiogelwch tân, ar gyfer 4,000 o leoedd mewn carchardai ar draws yr ystad. Mae'r asesiad cychwynnol o'r effaith i'r amserlenni yn amrywio o 3-18 mis o oedi ar gyfer rhaglenni cynnal a chadw ac adeiladu carchardai yr effeithir arnynt. Fel yr uchod, rydym hefyd yn wynebu heriau i'n prosiectau adeiladu drwy rwystrau, gan gynnwys caniatâd cynllunio ac uwchraddio cyfleustodau i sicrhau bod gennym ddigon o ynni i roi pŵer i'n carchardai.

27. I liniaru yn erbyn sioc economaidd a sicrhau gwytnwch, bydd cynlluniau cadarn wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys datblygu safleoedd wrth gefn er mwyn sicrhau, ar unrhyw adeg, os daw prosiect yn anghyflawnadwy neu'n rhoi gwerth gwael am arian, y gellir ei ddisodli gan opsiwn gwell.

28. Bydd y Llywodraeth hon hefyd yn sicrhau bod pob cell o fewn yr ystad carchardai yn cydymffurfio â diogelwch tân. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno offer synhwyro tân modern yn llawn, gan gynnwys gosod offer synhwyro tân â gwifrau ac awtomataidd, llethu, ac offer tynnu mwg.

## Adeiladu'r sylfeini digidol

29. Mae angen i ni hefyd achub ar y cyfle i adeiladu sylfaen o alluoedd digidol a thechnegol ar draws yr ystad, a fydd yn ei dro yn helpu ein carchardai i redeg yn fwy effeithlon a lleihau baich gweinyddol ar staff.

30. Ar hyn o bryd, dim ond 17 o'n 103 o garchardai y sector cyhoeddus sydd â Wi-Fi ar draws yr ardaloedd dibreswyl i alluogi staff i weithio'n hyblyg ac i gefnogi cynhyrchiant. Bydd y Llywodraeth hon yn buddsoddi mewn seilwaith digidol ar draws yr ystad bresennol ac yn sicrhau ei bod yn cael ei chynnwys wrth ddatblygu carchardai newydd.

31. Mae ein systemau IT mewnol mewn carchardai wedi dyddio ac nid ydynt yn addas at y diben erbyn hyn. Gyda'r sylfeini cywir yn eu lle o ran seilwaith, gallwn barhau i ddatblygu platfformau a gwasanaethau digidol modern i staff rheng flaen reoli troseddwyr yn well. Bydd y Llywodraeth hon yn cyflymu'r broses o gyflwyno'r Gwasanaeth Carchardai Digidol i ddarparu set newydd o wasanaethau digidol modern yn lle'r hen system y mae staff yn ei defnyddio i reoli a chofnodi data ar droseddwyr.

32. Bydd gwella'r seilwaith ac adeiladu systemau digidol modern yn helpu i:

- gynyddu cynhyrchiant staff drwy wella eu gallu i gael mynediad at offer digidol wrth fynd;
- symleiddio gweithgareddau a galluogi staff i dargedu eu capasiti cyfyngedig yn well drwy awtomeiddio prosesau â llaw. Mae ein carchardai yn dal i ddefnyddio dros 5 miliwn o ddalennau o bapur y mis ar draws y wlad; a
- gwella prosesau gwneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ddata drwy gysylltu data ar draws systemau, gan wneud gwybodaeth hanfodol yn fwy hygyrch i staff i gefnogi'r broses o reoli troseddwyr, gan gynnwys rheoli capasiti.

Rydym hefyd yn buddsoddi mewn technoleg sy'n arbed amser staff drwy alluogi carcharorion i wneud eu tasgau gweinyddol eu hunain, fel ychwanegu credyd i'w ffonau ac archebu prydau bwyd.

33. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i roi technoleg wrth wraidd ystadau a gwasanaethau ein carchardai. Gyda seilwaith digidol a sylfeini digidol a thechnoleg sylfaenol ar waith, gallwn fod yn fwy uchelgeisiol wrth ddefnyddio technolegau mwy newydd, fel Deallusrwydd Artiffisial. Rydym yn ymchwilio i gyfleoedd i'r technolegau hyn wella rheolaeth ystadau, cynhyrchiant staff a gwyliadwriaeth a diogelwch ymhellach mewn ffordd ddeallus. Bydd y mentrau hyn yn cael eu datblygu ochr yn ochr â dulliau arloesol o ddedfrydu cymunedol ac amodau trwyddedau a alluogir gan dechnoleg, er enghraifft drwy fwy o ddefnydd o dagio a dulliau monitro caeth ar droseddwyr.

## Caffael tir i ehangu ymhellach

34. Wrth gyflwyno mwy o leoedd mewn carchardai, rydym wedi ehangu ein cynllun i adeiladu yn dros hanner y carchardai ar draws yr ystad carchardai ar hyn o bryd. Er gwaetha'r ffaith y rhagwelir y bydd y galw am leoedd mewn carchardai yn fwy na'r cyflenwad dros y deng mlynedd nesaf, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn berchen ar unrhyw gaeau o dir ar hyn o bryd a fyddai'n addas i garchardai newydd y tu hwnt i'r rhai a gynlluniwyd yn barod. Ni phrynodd y Llywodraeth flaenorol unrhyw dir newydd rhwng 2014 a 2024, ac mae wedi golygu nad oes unrhyw safleoedd newydd ar y gweill. Mae gan y Llywodraeth hon uchelgais i sicrhau tir newydd yn barod pe bai angen adeiladu carchardai pellach yn y dyfodol.

35. Gallai prynu tir newydd ganiatáu i ni fanteisio ar ddiwygiadau cynllunio i ddechrau adeiladu carchardai newydd yn gyflymach. Gallai ganiatáu i ni brynu'r safleoedd gorau posib, a gweithio ar draws y llywodraeth a gydag awdurdodau lleol i ystyried adeiladu carchardai mewn cynlluniau datblygu strategol hirdymor.

## Casgliadau

36. Addawodd y Llywodraeth flaenorol 20,000 o leoedd mewn carchardai erbyn canol y 2020au. Mae'r strategaeth hon wedi tynnu sylw at y methiant i gyflawni hynny. Byddwn yn anelu at ddarparu 14,000 o leoedd mewn carchardai erbyn 2031, yn buddsoddi mewn cynnal a chadw i leihau'r dadfeilio a gwella diogelwch, ac yn cyflwyno deddfwriaeth cynllunio i gael gwared ar y rhwystrau o ran adeiladu carchardai newydd a gweithio tuag at ein huchelgais i sicrhau tir newydd.

37. Ym mis Gorffennaf 2024, etifeddodd y Llywodraeth hon system garchardai a oedd ar y dibyn. Yn ystod haf 2024, roedd y system o fewn dyddiau i fod yn orlawn, a fyddai wedi dod â'r system cyfiawnder troseddol i stop, wedi canslo treialon a'r heddlu yn gorfod atal arestiadau. Rhaid i'r Llywodraeth hon adeiladu'r lleoedd mewn carchardai yr addawodd ond methodd y Llywodraeth flaenorol i'w gyflawni, ac mi fydd yn gwneud hynny. Mae gwneud hynny yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng capasiti yn ein carchardai, ond nid yw'n ddigon. Daw'r strategaeth hon ochr yn ochr â'r Adolygiad Dedfrydu annibynnol, o dan arweiniad David Gauke. Drwy weithredu, bydd y strategaeth hon yn sicrhau na fyddwn byth eto mewn sefyllfa lle mae mwy o garcharorion nag o leoedd mewn carchardai.

E03252962
ISBN 978-1-5286-5317-6